

# Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Labordy Cathetreiddio Cardiaidd  
a Theatr Hybrid Ymyriadol,  
Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 4 a 5 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 8 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
  - Ansawdd profiad y claf
  - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
  - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Labordy Cathetreiddio Cardiaidd a Theatr Hybrid Ymyriadol, Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 4 a 5 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Uwch-swyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr ymatebion gan y cleifion yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y staff yn yr adran.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y staff yn trin y cleifion mewn modd caredig a pharchus.

Roedd trefniadau addas ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion a oedd yn mynychu'r adran.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella'r broses o gasglu adborth gan y cleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd sydd mewn cyflwr da gydag arwyddion da
- Sylwadau cadarnhaol iawn o brofiad y cleifion
- Y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n dda gydag arwyddion ac mae'r staff yn gallu ac yn fodlon siarad Cymraeg â'r cleifion.

### Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Canfuom fod cydymffurfedd â RhŶÍ(CM) 2017 yn dda iawn o'r dystiolaeth a oedd ar gael a'r trafodaethau a gynhaliwyd â'r staff. Roedd hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth y staff o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliad dyletswydd RhŶÍ(CM).

Canfuom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal da, diogel ac effeithiol i'r cleifion sy'n ymweld â'r adran. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith gan y gwasanaeth i sicrhau bod rhaglen archwilio glinigol effeithiol ar waith.

Hefyd, ystyriwyd bod lefel cyfranogiad Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn dda iawn.

Roedd polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyflogwr, sy'n ofynnol o dan RhYI(CM), ar gael. Byddai'n fuddiol diweddarau'r rhain a sicrhau bod y gofynion o dan RhYI(CM) yn cael eu cwmpasu'n llawn ar gyfer y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd a'r Theatr Hybrid Ymyriadol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod gwiriadau beichiogrwydd yn cael eu cynnal yn briodol a bod y gwiriadau hyn yn cael eu dogfennu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella cynnwys gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â gwiriadau beichiogrwydd er mwyn pennu'n glir sut mae gwiriadau beichiogrwydd yn cael eu cofnodi ym mhob maes
- Sicrhau bod y dogfennau o'r gwiriadau beichiogrwydd yn gyson ar y systemau perthnasol
- Rhoi hawl ffurfiol i uwch ymarferwyr nyrso cardiaidd weithredu fel atgyfeirwyr anfeddygol
- Cynnwys cyfeiriadau perthnasol at y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd a'r Theatr Hybrid Ymyriadol ym mhob rhan o weithdrefnau'r cyflogwr
- Newid y llenni urddas yn yr uned ddydd mewn modd amserol a phriodol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Lefel amlwg o gefnogaeth gan Arbenigwr Ffiseg Feddygol ym mhob maes
- Sefydlu timau optimeiddio delweddau gyda'r bwriad o sefydlu hyn yn yr adran gardioleg
- Archwiliadau clinigol o safon uchel yn cael eu cynnal, gyda chanlyniadau'n cael eu rhannu â'r staff a gwelliannau'n cael eu gwneud, pan fo'n briodol
- Archwiliad clinigol, gan gynnwys y cyfeiriad at archwiliadau ar draws y bwrdd iechyd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Disgrifiwyd a dangoswyd strwythur rheoli gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda a nododd sylwadau gan y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan uwch-staff yn yr adran. Roedd yn amlwg o'n harolygiad bod perthynas dda rhwng staff yr adran a'r uwch-reolwyr.

Roedd gweithdrefnau'r cyflogwr, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 2, o safon dda ar y cyfan. Roedd angen diweddarau ac adolygu rhai ohonynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y gwaith o reoli'r fersiynau o'r holl weithdrefnau a phrotocolau yn gyson a'u bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol
- Bod y staff yn adrodd am unrhyw achosion o ddod i gysylltiad anfwriadol ag ymbelydredd, neu unrhyw gamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad
- Bod y staff yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel ac y byddent yn hyderus y byddai eu pryderon yn cael sylw.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolaeth ac arweinyddiaeth clir
- Llythyrau ar gyfer adnewyddu hawl yn flynyddol yn amlinellu cwmpas ei ymarfer
- Cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.



## 3. Yr hyn a ganfuom

### Ansawdd profiad y claf

#### Adborth cleifion

Gwnaeth AGIC gyflwyno arolygon ar-lein ac ar bapur i gael barn y cleifion ar ddelweddu diagnostig yn Ysbyty Glan Clwyd, yn benodol yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd a'r Theatr Hybrid Ymyriadol. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 31 o ymatebion. Roedd bron pob ymateb gan ddefnyddwyr y gwasanaeth i'r cwestiynau a ofynnwyd yn nodi bod profiad y cleifion yn gadarnhaol ac roedd sylwadau yn canmol y staff yn arbennig. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sgorio'u profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Dywedodd pob claf a atebodd y cwestiwn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Gwnaed y sylwadau canlynol ynghylch profiad cyffredinol y cleifion:

*“Mae'r amgylchedd yn hamddenol ac mae'r lefelau sŵn yn eithaf isel. Yr unig feirniadaeth sydd gennyf yw bod y system aerdymheru yn lledu aer oer gan wneud yr ardal o amgylch y gwelyau yn anghyfforddus o oer.”*

*“Roedd yn wych, ac roedd pawb yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.”*

*“Roedd y tîm meddygol yn rhagorol gydag agwedd broffesiynol a gofalgwr o ran eu gweithdrefnau a'm gofal.”*

*“Roedd yn gyflym, yn broffesiynol iawn ond yn gyfeillgar, wedi'i drefnu'n dda ac yn rhedeg yn esmwyth. Diolch i'r staff a'r meddygon.”*

*“Roedd yr holl staff yn yr adran gardiaidd yn effeithlon, yn gwrtais ac yn gyfeillgar, [roeddent] yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio cyn fy nhriniaeth.”*

#### Adborth staff

Gwnaeth AGIC gyflwyno holiadur ar-lein hefyd er mwyn cael barn y staff am y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd a'r Theatr Hybrid Ymyriadol. Cawsom gyfanswm o 69 o ymatebion gan staff y lleoliad. Gwnaeth 60 aelod o staff gwblhau'r holiadur yn ei gyfanrwydd gyda naw yn ei lenwi'n rhannol.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod adborth profiad y cleifion yn cael ei gasglu o fewn eu hadran. Hefyd, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am adborth profiad cleifion yn eu hadran a bod adborth gan y cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu hadran.

## Cadw'n iach

### Diogelu a gwella iechyd

Roedd nifer o bosteri gwybodaeth wedi'u harddangos yn y gwahanol fannau aros a'r tu allan i'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys manylion yn hysbysu'r cleifion am bwysigrwydd rhoi gwybod i'r staff os yw'n debygol, neu'n bosibl, eu bod yn feichiog. Roedd y posterï hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd taflenni am fwyta'n iach wedi'u harddangos a gwelsom nifer o daflenni a ddarparwyd gan Sefydliad Prydeinig y Galon.

## Gofal ag urddas

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd dolen glyw ar gael yn y brif dderbynfa y gellid hefyd ei defnyddio yn y mannau triniaeth. Gwelwyd posterï dwyieithog yn cael eu harddangos ac roedd arwyddion clir yn dangos bod y cleifion yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd y staff wrthym ei bod yn bosibl cael mynediad at wasanaethau cyfieithu dros y ffôn. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn yr adran.

Wrth ystyried y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg, nododd pedwar claf mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Nododd tri o'r pedwar eu bod wedi cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith fel claf. Roeddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg o fewn amgylchedd yr ysbyty. Dywedodd tri o'r pedwar fod gwybodaeth ynghylch gofal iechyd ar gael yn Gymraeg.

Mewn perthynas â'r staff, nododd 13 o'r 62 o aelodau o staff a atebodd yr holiadur eu bod yn siarad Cymraeg. Roedd deg o'r rhain yn gwisgo'r bathodyn neu laniard 'laith Gwaith'. Dywedodd chwech y gofynnir i'r cleifion nodi'u dewis iaith a dywedodd chwech y gofynnir hyn iddynt weithiau. Nododd saith aelod o'r staff eu bod yn defnyddio'r Gymraeg mewn sgysiau bob dydd a nododd chwech eu bod yn gwneud hynny weithiau.

### Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ar gael a'i bod yn cael ei harddangos yn yr adran. Roedd yn ymwneud ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys yr hyn y dylai'r cleifion ei ddisgwyl o ran eu triniaeth. Hefyd, roedd gwybodaeth

wedi'i harddangos sy'n ymwneud â'r mesurau sydd ar waith i atal lledaeniad COVID-19.

Roedd yr holl gleifion yn cytuno eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymument mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, a'u bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall manteision a risgiau'r driniaeth. Yn ogystal, roedd yr holl gleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth. Roedd yr holl gleifion ac eithrio tri yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch pwy i gysylltu â nhw i gael cyngor am unrhyw 'ôl-ffeithiau' o'u triniaeth.

## Urddas

Gwelwyd bod y staff yn trin y cleifion â pharch ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd cyfeillgar ond proffesiynol. Roedd ystafelloedd â llenni preifatrwydd ar gael i'r cleifion newid eu dillad i gynau llawdriniaeth cyn y driniaeth. Pe bai'r cleifion yn dymuno trafod unrhyw faterion preifat, roedd ystafell ar gael i ffwrdd o'r brif ystafell aros er mwyn darparu preifatrwydd.

Gwelwyd bod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau pan fo unrhyw driniaeth yn cael ei darparu.

Roedd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd. Dywedwyd y canlynol wrthym:

*“Roedd y staff yn gwrtais a chymwynasgar.”*

*“Mae'r staff yn ofalgar ac yn sylwgar.”*

*“Roedd y staff mor gyfeillgar ac yn gwneud i mi deimlo'n hamddenol iawn ... [gwnaethon nhw] aros i mi baratoi i fynd gyda nhw ... doeddwn i ddim yn teimlo fy mod ar frys o gwbl.”*

*“Roedd y staff yn effeithlon ac yn ddymunol iawn. Roedd y ffordd y gwnaethant fy nhrin i wedi creu argraff fawr arnaf.”*

Cytunodd dros 90 y cant o'r cleifion eu bod yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i'r cleifion eraill neu ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth eu clywed. Cytunodd yr holl gleifion fod y staff yn esbonio'r hyn yr oeddent yn ei wneud, roeddent yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Yng ngeiriau'r cleifion:

*“A dweud y gwir, ni allent fod yn fwy cymwynasgar. Roedden nhw'n ateb pob cwestiwn yn y fan a'r lle. Roedden nhw mor gwrtais i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu diwallu.”*

*“Roedden nhw'n cadw dweud wrthyf beth oedd yn digwydd pan oeddwn i eisiau gwybod.”*

*“Roedd yr holl staff yn wych. Doedd dim byd yn ormod o drafferth, Gwnaethon nhw esbonio popeth a oedd yn digwydd. Roedden nhw'n gynnes ac yn gyfeillgar ac yn gwneud i mi deimlo'n gwbl gartrefol.”*

Roedd bron yr holl staff a ymatebodd yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal a bod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal ac yn cael gwybod amdanynt.

## Gofal amserol

### Mynediad amserol

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod y cleifion mewnol yn cael eu gweld y diwrnod canlynol pe byddai'n rhaid gohиро'r driniaeth. Cadarnhaodd y staff hefyd fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi. Roedd yr holl gleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno ei bod yn hawdd cael apwyntiad. Nododd un o'r cleifion y canlynol:

*“Roedd y tîm radioleg ymyriadol yn hollol wych. Gwnes i ffonio ... ac fe welson nhw fi ar yr un diwrnod.”*

Roedd yr holl gleifion, ac eithrio un, yn cytuno ei bod yn hawdd iddynt ddod o hyd i'r ffordd i'r adran. Roedd bron pob un o'r cleifion wedi cytuno y cawsant wybod yn yr adran am ba mor hir y byddent yn debygol o orfod aros.

## Gofal unigol

### Hawliau pobl

Darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu wedi'u gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn gallu cael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio ar sail gyfartal. Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr holl gleifion yn cael eu trin yn deg a chyda pharch, ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig, ac roedd ganddynt bolisi o beidio â goddef unrhyw fwlio neu gamwahaniaethu o gwbl. Cyfrifoldeb yr holl staff oedd amlygu a herio ymddygiad gwael. Roedd hefyd tîm cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y bwrdd iechyd a ddarparodd gyngor a chymorth. Roedd yr hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol.

Dywedodd cyfanswm o 86 y cant o'r cleifion eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Y brif broblem a nodwyd gan y cleifion oedd yr anhawster o gael apwyntiadau gyda'r meddyg teulu.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Yn y dderbynfa, roedd posterï dwyieithog 'Gweithio i Wella' wedi'u harddangos ac roedd taflenni gwybodaeth ar gael. Roedd gwasanaeth cyswllt cleifion yr ysbyty hefyd yn cael ei hyrwyddo trwy daflenni ac ar bosteri.

Roedd canlyniadau'r adborth a gafwyd ym mis Hydref 2021 wedi'u harddangos yn lolfa'r Labordy Cathetreiddio Cardiaidd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth am adborth i'w gweld yn lolfa'r uned radioleg ymyriadol. Dywedodd y staff wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r gyfradd ymateb, gan gynnwys darparu cod ymateb sydyn (QR) i'r cleifion yn dilyn y triniaethau. Byddai'r ymatebion yn cael eu casglu i lunio adroddiad a gâi ei arddangos yn yr ystafell aros.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017

Cyn yr arolygiad, roedd AGIC wedi gofyn i uwch-aelodau o staff yn yr adran gwblhau holiadur hunanasesu a'i gyflwyno. Roedd hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i AGIC am yr adran, yn ogystal â pholisiau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â'r RhYI(CM). Roedd yr holiaduron hunanasesu wedi'u cwblhau i safon uchel a chawsant eu defnyddio i lywio'r dull arolygu. Pan oedd angen gwybodaeth neu eglurhad ychwanegol arnom mewn perthynas â'r ymatebion yn yr holiaduron hunanasesu, cawsom ymateb prydlon.

### Dyletswyddau'r cyflogwr

#### *Adnabod cleifion*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig gyfredol i'r staff ei dilyn er mwyn adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod y weithdrefn yn cynnwys y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd na'r Theatr Hybrid Ymyriadol. Byddai angen diweddarau'r weithdrefn hon i adlewyrchu'r broses yn y ddwy ardal hon. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir ar gyfer adnabod cleifion, gan gynnwys sut i nodi'n gywir yr unigolion hynny nad ydynt efallai'n gallu adnabod eu hunain.

Roedd yr holl gleifion yn cytuno y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol.

#### *Unigolion a allai fod yn feichiog (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer cadarnhau a oedd unigolyn yn feichiog neu a allai fod yn feichiog, cyn cael unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, mae angen diweddarau'r weithdrefn cyflogwr hon i gynnwys y broses o gofnodi ymholiadau sy'n ymwneud â beichiogrwydd ar gyfer pob ardal er mwyn sicrhau dull cyson. Hefyd, nid oedd y weithdrefn yn mynd i'r afael ag amrywiaeth rhywedd ac nid oedd yr ystod oedran wedi'i nodi ar y siart ar siart llif a welwyd yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd. Mae angen diweddarau'r weithdrefn hon yn unol â hynny. Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i nodi dull Cymru gyfan o ymdrin â dogfennau sy'n ymwneud â beichiogrwydd.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio’u cyfrifoldebau mewn perthynas ag ymholiadau sy’n ymwneud â beichiogrwydd, a oedd yn cynnwys yr angen i ystyried unigolion sydd â’r gallu i gael plant a bwydo o’r fron.

### *Achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol*

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith a oedd yn amlinellu’r meini prawf ar gyfer cynnal cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd unrhyw ddelweddu anfeddygol yn yr ardaloedd a fu’n destun yr arolygiad.

### *Canllawiau atgyfeirio*

Roedd gan y cyflogwr ganllawiau atgyfeirio sefydledig ar waith. Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer sicrhau bod y rhain ar gael i’r bobl hynny sydd â hawl i weithredu fel atgyfeiriwr o dan RhYŷ(CM) 2017. Roedd y canllawiau atgyfeirio wedi’u nodi yn y weithdrefn radioleg ar gyfer pennu hawl. Roedd y canllawiau i-Refer a ddefnyddiwyd ar gael drwy’r dudalen radioleg ar y fewnwyd a chât atgyfeirwyr eu hysbysu drwy’r hysbysiad blynyddol. Roedd set o ganllawiau atgyfeirio y cytunwyd arnynt yn lleol i gwmpasu’r archwiliadau hynny a gynhelir yn rheolaidd nad oeddent wedi’u cynnwys yn i-Refer. Roedd atgyfeiriadau’r Labordy Cathetreiddio Cardiaidd wedi’u cyfyngu i aelodau’r gwasanaeth cardioleg ac roedd canllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn cael eu dilyn. Rhannwyd yr wybodaeth hon drwy’r arweinydd clinigol ac arweinydd y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd.

Disgrifiwyd y broses ar gyfer blaenoriaethu atgyfeiriadau yn y ffurflen hunanasesu ac roedd y staff hefyd yn gallu disgrifio’r broses hon.

### **Dyletswyddau’r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a’r gweithredwr**

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi’r gwahanol rolau a mathau o weithwyr proffesiynol sy’n rhan o’r gwaith atgyfeirio, cyfiawnhau a chyflawni archwiliadau radioleg i’r cleifion. Roedd gweithdrefn cyflogwr i nodi’r unigolion sydd â hawl i weithredu fel atgyfeirwyr, ymarferwyr, a gweithredwyr (deiliaid dyletswydd) o fewn cwrdd ymarfer penodol.

O adolygu’r ffurflen hunanasesu a thrwy siarad â’r uwch-aelodau o staff, cawsom wybod am y broses ar gyfer y rhaglenni sefydlu a hyfforddi sydd ar waith ar gyfer yr holl ymarferwyr a’r gweithredwyr newydd eu penodi o dan y RhYŷ(CM).

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y trefniadau ar gyfer hysbysu’r staff o unrhyw newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â

nhw eu bod yn gallu cyrchu fersiynau electronig o'r polisiau a'r gweithdrefnau pan fo angen.

Gwnaethom adolygu sampl o bum cofnod hyfforddiant staff sy'n ymwneud â'u cymhwysedd, yr hawl a roddwyd iddynt, cwmpas eu hymarfer a'u hyfforddiant. Ar y cyfan, roedd y cofnodion wedi'u gosod yn dda ac wedi'u cwblhau i safon uchel.

### **Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol**

Mae'r cam cyfiawnhau yn cael ei gwblhau cyn i'r ymarferydd sydd â'r hawl priodol o dan y RhYŷ(CM) ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Bydd yr ymarferydd yn llofnodi'r ffurflen atgyfeirio yn y blwch cyfiawnhau a, pan fo'n briodol, yn nodi'r protocol i'w ddilyn. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd system electronig ar waith ar gyfer cyfiawnhau atgyfeiriadau. Serch hynny, roedd prosiect ar waith i sefydlu system electronig.

Pan nad oedd yr ymarferydd ar gael yn yr adran, byddai'r radiograffydd yn gweithredu fel gweithredwr y RhYŷ(CM) yn awdurdodi'r cysylltiad ag ymbelydredd gan ddefnyddio'r canllawiau awdurdodi a gyhoeddwyd gan yr ymarferydd.

Yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd, ymarferydd y RhYŷ(CM) oedd y meddyg ymgynghorol a oedd yn cyflawni'r driniaeth a oedd wedi cael y cydsyniad. Roedd llofnodi'r ffurflen cydsyniad hefyd yn cael ei hystyried yn gofnod o'r broses gyfiawnhau.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig hefyd yn manylu ar y broses ar gyfer cyfiawnhau'r achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd i ofalwyr a chysurwyr. Fodd bynnag, nid oedd cofnod yn y weithdrefn yn nodi nad oedd gofalwyr a chysurwyr yn cael eu defnyddio yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd na'r Theatr Hybrid Ymyriadol.

### **Optimeiddio**

Nododd y ffurflen hunanasesu a ddarparwyd fod tîm optimeiddio delweddau ar waith ar gyfer yr Ystafell Ymyriadol a'r Theatr Hybrid. Dywedwyd wrthym fod cyfarfod cyntaf tîm optimeiddio delweddau'r Theatr Hybrid wedi cael ei gynnal tua chwe mis yn ôl. Yn ddelfrydol, byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn chwarterol. Defnyddiwyd yr un cylch gorchwyl ag yr un a ddefnyddiwyd gan dimau optimeiddio delweddau eraill yn yr adran.

Roedd y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd yn y broses o ddatblygu tîm optimeiddio delweddau. Yn y cyfamser, roedd y staff yn mynychu cyfarfodydd amrywiol, yn codi unrhyw faterion, ac yn trafod sut y gellid gwella pethau. Roedd cylch



gorchwyl wedi'i ddatblygu ac roedd y cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Mai.

Dywedwyd wrthym hefyd bod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn darparu cyngor yn rheolaidd ac yn cyfrannu at y gwaith o optimeiddio achosion o ddot i gysylltiad ag ymbelydredd, gan gynnwys profion derbyn a gwaith sicrhau ansawdd offer wedi'i amserlennu.

### *Lefelau cyfeirio diagnostig*

Roedd gweithdrefn cyflogwr yn ymwneud â lefelau cyfeirio diagnostig a oedd wedi'i hanelu yn bennaf at staff radioleg glinigol ac Arbenigwyr Ffiseg Feddygol. Unwaith eto, mae angen diweddarau'r weithdrefn i gynnwys cyfeiriad at y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd.

Dywedwyd wrthym fod y dasg o adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig wedi'i chynnwys yng nghylch gorchwyl y tîm optimeiddio delweddu radioleg perthnasol, fel arfer yn ystod cyfarfod chwarterol cyntaf y tîm optimeiddio delweddu. Câi adolygiad o ddotau canolrifol y blynyddoedd blaenorol ei gynnal gan gynnwys tueddiadau yn y data ynghyd â sut roedd dyfeisiau unigol yn gweithredu o'u cymharu â'r lefelau cyfeirio diagnostig.

Disgrifiwyd y broses o sefydlu, defnyddio ac adolygu'r lefelau cyfeirio diagnostig yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd gan y staff. Caiff y rhain eu hadolygu yn y dyfodol gan y tîm optimeiddio delweddu ar gyfer cardioleg.

### *Paediatreg*

Ni chafodd cleifion paediatrig eu delweddu yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd na'r Theatr Hybrid Ymyriadol.

### *Gwerthusiad clinigol*

Disgrifiwyd y gwerthusiad clinigol o ddelweddu ac ni chanfuwyd unrhyw broblemau gyda'r broses hon. Roedd y gwerthusiadau clinigol yn cael eu cyflawni gan y cardiolegwyr / radiolegwyr a'u cynnwys yng nghofnodion y cleifion.

### **Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr**

Roedd y stocrestr o gyfarpar yn unol â'r gofyniad rheoliadol. Dywedwyd wrthym fod yr holl gyfarpar a brynwyd o'r newydd yn destun profion derbyn ac archwiliad critigol cyn iddynt gael eu defnyddio at ddibenion clinigol am y tro cyntaf, a hynny fel rhan o'r broses gomisiynu. Roedd y gronfa ddata ffiseg feddygol yn cynnwys

amledd profion yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Ffiseg a Pheirianeg mewn Meddyaeth.

Roedd y rhaglenni sicrhau ansawdd ar gyfer y Labordy Radioleg a'r Labordy Cathetreiddio Cardiaidd wedi'u datblygu gyda chymorth yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol.

## **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd yn hawdd dod o hyd i'r adran o'r brif fynedfa. Roedd map o'r safle ac roedd arwyddion da i'r adran. Ni nodwyd unrhyw beryglon amlwg yn y manau cyhoeddus ac roedd y coridorau'n glir o rwystrau. Roedd mynediad gwastad ac roedd cyfleusterau ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd.

Gwelsom dystiolaeth o'r cyfyngiadau sydd ar waith oherwydd COVID-19 a oedd yn cynnwys llai o seddi, nad oedd yn ymddangos eu bod yn cael effaith negyddol ar y cleifion. Mae nifer cyfyngedig o seddi yn lolfa'r cleifion er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol. Roedd y broses o asesu'r cleifion ymlaen llaw yn cael ei chynnal dros y ffôn yn bennaf, oni bai bod angen ymchwiliad pellach, ac yn yr achosion hynny byddai'n ofynnol wedyn i'r claf fod yn bresennol. Roedd mynediad cyfyngedig ym mhob rhan o'r adran er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i'r manau clinigol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses a ddefnyddiwyd i egluro'r wybodaeth a ddarparwyd i'r unigolion neu eu cynrychiolwyr sy'n ymwneud â'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos o ymbelydredd o ddatguddiadau.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd pob rhan o'r adran a'r offer i'w gweld yn lân. Roedd yr amgylchedd i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac mewn cyflwr da. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael ac roedd gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r adran. Gwelwyd y staff yn glanhau troliau. Defnyddiwyd llenni urddas untro yn yr uned ddydd. Dywedwyd wrthym fod y llenni urddas yn cael eu newid pan fyddant yn fudr, neu'n flynyddol. Fodd bynnag, o wirio'r llenni, roedd pedwar wedi bod yn eu lle ers dros flwyddyn, gan gynnwys un o fis Mai 2019, ac nid oedd dyddiad wedi'i nodi ar un ohonynt.

Roedd y newidiadau a oedd wedi bod ar waith yn yr adran ers dechrau'r pandemig yn cynnwys arddangos posteri yn cynghori'r cleifion i beidio â mynd i mewn i'r adran os ydynt yn teimlo'n sâl a phosteri'n disgrifio rhagofalon COVID-19 eraill.

Roedd y rhagofalon hyn yn cynnwys yr angen i wisgo masg wyneb, golchi a diheintio dwylo, a chadw pellter cymdeithasol. Defnyddiwyd tâp i atal bobl rhag defnyddio cadeiriau yn y brif ystafell aros. Ni ddefnyddiwyd tâp ar gyfer y cadeiriau yn ystafell aros y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd. Cadarnhaodd y rheolwr fod nifer y cleifion a oedd yn defnyddio'r ardal hon yn cael ei gyfyngu a bod y staff yn gorfodi hyn. Roedd ystafell ochr ar gael i ynysu'r cleifion oherwydd haint neu resymau eraill. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn rhwydd a gwelwyd bod y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol hwn yn briodol.

Dywedodd pob un o'r cleifion, ac eithrio dau, fod y lleoliad yn 'lân iawn', a dywedodd y ddau arall ei fod yn 'weddol lân'. Dywedodd pob claf fod mesurau rheoli haint COVID-19 yn cael eu dilyn, pan fo'n briodol. Roedd pob aelod o staff, ac eithrio un, yn cytuno bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a chytunodd bron pob aelod o staff fod eu sefydliad wedi rhoi'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol ar waith. Roedd pob aelod o staff yn cytuno fod trefniadau dihalogi ar gyfer y cyfarpar a'r manau perthnasol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio sut roedd y dyfeisiau meddygol, y cyfarpar a'r rhannau perthnasol o'r uned yn cael eu dihalogi.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl**

Dywedodd y staff a'r uwch-staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau hyd at lefel dau. Roedd yr arweinydd diogelu enwebedig wedi'i hyfforddi hyd at lefel tri. Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a oedd ar waith a'r camau yr oedd angen eu cymryd pe bai pryder ynghylch diogelu.

## **Gofal effeithiol**

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

#### *Archwiliad clinigol*

Fel rhan o'r ffurflen hunanasesu a ddarparwyd cyn yr arolygiad, darparwyd rhaglen archwilio clinigol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a thair enghraifft o archwiliadau clinigol a gwblhawyd. Roedd yr ystod o archwiliadau a ddarparwyd yn cynnwys y meysydd i'w gwella a weithredwyd o'r canfyddiadau ar ôl yr archwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod gostyngiad yn y defnydd o chwyddo mewn triniaethau cardiaidd wedi arwain at ostyngiad yn y dos o ymbelydredd i'r cleifion. Roedd monitor â sgrin fawr yn caniatáu i'r tîm ddileu'r cam o chwyddo delweddau ac roedd hyn o fudd i'r cleifion o ran y dos o ymbelydredd.

Barnwyd bod yr archwiliad cardiaidd o ymyriad coronaidd trwy'r croen yn enghraifft dda arall lle roedd proses archwilio'n dwyn buddion i'r adran.

Roedd y ffurflen hunanasesu yn dangos bod maes yr archwiliadau clinigol wedi'i rannu'n dair haen, gyda'r ail haen yn archwiliadau a gynhelir ar draws y bwrdd iechyd ac archwiliadau gwasanaeth gorfodol. Roedd yr adran yn symud ymlaen tuag at gyflawni Safon Ansawdd ar gyfer Delweddu.

Yn ogystal, cyfeiriodd y ffurflen hunanasesu at enghraifft lle byddai radiograffydd unigol yn gweithio ar draws y tri safle yn edrych ar gysondeb y profion fflworobariwm.

### *Cyngor arbenigol*

Roedd lefel y gefnogaeth gan yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn amlwg ym mhob maes. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth glir i ddangos bod rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r adran. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol i geisio cyngor a chymorth pan fo angen. Roedd hyn yn cynnwys pan fyddai radiograffwyr yn hysbysu'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol am unrhyw ddigwyddiadau ymbelydredd neu broblemau gyda'r cyfarpar.

Dywedwyd wrthym fod yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn aelod sefydlog craidd o bob un o'r timau optimeiddio delweddu a'u bod yn cwblhau profion sicrhau ansawdd yn rheolaidd sy'n cynnwys mesur dosau a chynnal archwiliadau. Roeddent hefyd yn amcangyfrif dosau ar gyfer achosion o ddod i gysylltiad sylweddol ac anfwriadol ag ymbelydredd. Roedd Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a radiograffwyr sicrhau ansawdd yn y broses o ddrafftio polisi ar gyfer sicrhau ansawdd i'r bwrdd iechyd cyfan, yr oeddent yn gobeithio y byddai'n dod yn bolisi Cymru Gyfan.

Dangosodd y ffurflen hunanasesu hefyd fod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn aelodau o nifer o grwpiau llywodraethu a diogelwch yn ymwneud â radioleg a'u bod yn ogystal yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu protocolau a thechnegau. Roedd y ddau Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y bwrdd iechyd.

### *Ymchwil feddygol*

Nid oedd ymchwil yn cael ei chynnal yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd na'r Theatr Hybrid Ymyriadol ar adeg yr arolygiad. Roedd gweithdrefn ar waith mewn perthynas ag ymchwil sy'n golygu defnyddio ymbelydredd ìoneiddio ac ymbelydredd heb ìoneiddio.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom wirio sampl o bum dogfen atgyfeirio cleifion cyfredol a phum dogfen atgyfeirio cleifion ôl-weithredol. Roedd yr atgyfeiriadau yn y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd yn cydymffurfio â'r gofyniad rheoliadol ac yn dangos tystiolaeth o wiriadau hunaniaeth, y broses gyfiawnhau ac awdurdodi, gwirio beichiogrwydd a chofnodi dosau.

Yn achos yr uned radioleg, o'r sampl o bum claf ôl-weithredol, ni chofnodwyd gwiriadau beichiogrwydd ar gyfer dau ohonynt ar y ffurflen atgyfeirio na'r system. Roedd yr holl dystiolaeth arall yn bresennol.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd ymatebion y staff i'r holiadur ar-lein yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phawb, ac eithrio un, yn fodlon ar ansawdd y gofal yr oeddent yn ei roi i'r cleifion. Y meysydd a nodwyd yr ymatebion mwyaf cadarnhaol ar eu cyfer oedd hyfforddiant a datblygiad, gofal ag urddas, atal a rheoli heintiau, ac adrodd am ddigwyddiadau.

Y brif broblem a godwyd oedd staffio annigonol a'i effaith ar ddiogelwch y cleifion a llesiant y staff. Roedd sylwadau negyddol eraill yn cynnwys canfyddiadau'r staff o ddiffyg dealltwriaeth o sut mae achosion brys cardiaidd yn effeithio ar amseroedd ymateb ambiwlansys a'r ffaith nad yw'r cleifion yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer delweddu.

Gwnaethom ofyn i'r staff sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Awgrymodd y staff y canlynol:

*“Dylid gweithredu clinig cyn llawdriniaeth fel ei bod yn llai tebygol y bydd problemau'n codi pan fydd y cleifion yn yr adran, sy'n helpu i sicrhau bod y claf a'r staff yn parhau i fod yn fwy gwybodus ac yn lleihau'r posibilrwydd o ganslo triniaethau.”*

*“Dylid rhoi tîm gweinyddol dyddiol pwrpasol ar waith a chael gwared ar ymyriadau o bob man sganio fel y gall y radiograffydd ganolbwyntio ar archwiliadau ac addysgu myfyrwyr a, thrwy hynny, wella diogelwch pob claf. Ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r radiograffydd gyflawni dyletswyddau gweinyddol dyddiol ... wrth berfformio archwiliad tomograffeg gyfrifiadurol neu archwiliad delweddu atseinol magnetig.”*

*“Dylid neilltuo mwy o amser ar gyfer apwyntiadau ac yn enwedig wrth hyfforddi myfyrwyr.”*

*“Mae angen i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ddeall ei bod yn flaenoriaeth dod â chlaf sydd â chnawdnychiant myocardaidd â chodiad segment (STEMI) neu drawiad nad yw'n cnawdnychiant myocardaidd â chodiad segment (NSTEMI) i Lan Clwyd i gael triniaeth. Nid yw'r dwyrain a'r gorllewin yn lle diogel a gallant aros gan nad ydynt yn ymwneud ag ymyriadau coronaidd sylfaenol drwy'r croen.”*

*“... mae llawer o'r cleifion yn dod o'r Adran Achosion Brys heb eu paratoi ar gyfer eu harchwiliad, e.e. maen nhw wedi'u gwisgo'n llawn ar droliâu ambiwlans, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r cleifion gael sgan pelydr-X mewn modd amserol.”*

*“Dylid neilltuo mwy o amser anghlinigol i gefnogi gwaith archwilio, hyfforddiant, galw gweithredol a chwmpasu ar gyfer gwella a myfyrio.”*

*“Dylid sicrhau bod cyfleusterau newid gwell i'r staff ar ddechrau a diwedd eu shifftiau.”*

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd bod strwythur rheoli gyda llinellau atebolrwydd ac adrodd clir. Canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r gwaith o weithredu'r adran yn effeithiol.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn weladwy iawn ac yn hawdd mynd atynt pe bai ganddynt unrhyw broblemau neu ymholiadau yr hoffent eu trafod.

Roedd ymatebion y staff i'r holiadur ynghylch y sefydliad yn amrywio, ac roedd y canrannau a oedd yn cytuno â'r datganiadau amrywiol fel a ganlyn:

- Yn annog gwaith tîm - 88 y cant
- Gofal cleifion yw prif flaenoriaeth eu sefydliad - 87 y cant. Dywedodd aelod o staff y canlynol wrthym:

*"... Rwyf wir wedi mwynhau'r diwylliant sy'n canolbwyntio ar y claf yn fawr a'r ffaith bod y staff yn cefnogi ei gilydd i gyflawni'r holl waith."*

- Gweithredu ar bryderon a godwyd gan y cleifion - 87 y cant
- Yr ymdrechion sydd ar waith i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel - 82 y cant. Gwnaeth aelod o staff y sylwadau canlynol:

*"Gweithio'n unigol dros nos mewn adran ynysig. Gyda rhai o'r cleifion mwyaf sâl yn yr ysbyty yn dod am sganiau, yn aml gydag aelodau o staff heb eu hyfforddi. Rwy'n teimlo'n agored iawn i niwed yn y sefyllfaoedd hyn."*

- Sefydliad cefnogol - cytunodd 81 y cant â hyn. Dywedwyd y canlynol wrthym:

*"Diwylliant cefnogol iawn o fy mhrofiad i ..."*

*"Mae'n rhaid i mi ddweud mai dyma'r lle gorau rwyf wedi gweithio; mae'r staff a'r rheolwyr yn gefnogol iawn."*

- Argymell eu sefydliad fel lle i weithio - 78 y cant

*“Mae’r adran lle dwi’n gweithio yn lle gwych i weithio gyda gwaith tîm cydlynol, ac arweinwyr brwdfrydig ac ymroddedig. Mae fy nghydweithwyr yn wych i weithio ochr yn ochr â nhw. Ond, rwy’n teimlo nad oes gan y sefydliad cyffredinol ddigon o adnoddau ym mhob math o ffyrdd, a’r diffyg staff a gwelyau sydd fwyaf nodedig, sy’n creu pwysau a straen di-baid aruthrol o ddydd i ddydd.”*

- Cefnogir y staff i adnabod a datrys problemau - 76 y cant
- Hapus gyda safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad hwn ar gyfer eu hunain, ffrindiau neu berthnasau - 71 y cant
- Mae’r sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen - 69 y cant.

Ar ddyddiau ein harolygiad, sicrhaodd y rheolwyr eu bod ar gael a gwnaethant hwyluso’r broses arolygu. Roeddent yn agored i’n hadborth a gwnaethant ddangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i’r materion a amlygwyd. Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff yn ystod yr arolygiad, a gwnaethant ganmol gweithrediad y gwasanaeth.

*O ran sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy’n seiliedig ar hawliau’n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth, dywedwyd wrthym fod pawb yn cael eu trin yn deg gyda’r un lefel o barch.*

Roedd canrannau’r staff a oedd yn cytuno â’r datganiadau canlynol am eu rheolwr uniongyrchol fel a ganlyn:

- Mae modd dibynnu arno i helpu gyda thasg anodd yn y gwaith - 93 y cant
- Mae’n rhoi adborth clir i’r aelod o staff ar ei waith- 91 y cant
- Mae’n gofyn am farn yr aelod o staff cyn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio ar ei waith 82 y cant.

Roedd canrannau’r staff a oedd yn cytuno â’r datganiadau canlynol am eu huwch-reolwyr fel a ganlyn:

- Roeddent yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr - 98 y cant
- Maent wedi’u hymrwymo i ofalu am gleifion - 92 y cant
- Maent yn weladwy - 86 y cant. Dywedodd y staff y canlynol:



*“... dylid sicrhau bod yr uwch-staff/uwch-reolwyr yn fwy gweladwy a rhagweithiol ... yn yr ysbyty, fel eu bod yn gallu ymgymryd â rhai rolau clinigol pan fo angen, a’u bod yn barod ac yn gallu helpu’r staff yn fwy effeithiol.”*

*“Fel sydd bob amser yn wir, mae gormod o reolwyr ar gyflogau enfawr wedi’u cau i ffwrdd mewn swyddfeydd a dim digon o staff lle rydyn ni wir eu hangen.”*

- Mae’r cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a’r staff yn effeithiol - 77 y cant. Gwnaeth aelod o staff y sylwadau canlynol:

*“Gallai’r rheolwyr wella’r ffordd maen nhw’n cyfathrebu gyda’r tîm mewn perthynas â newidiadau sy’n effeithio’n uniongyrchol ar y llif gwaith.”*

## **Dyletswyddau'r cyflogwr**

### *Hawliau*

Roedd pob atgyfeiriwr meddygol a deintyddol wedi cwblhau’r cyfnod sefydlu perthnasol ac roedd disgwyl iddynt ddarllen gweithdrefnau priodol y cyflogwr. Roedd yr adran yn anfon llythyr hawl blynyddol at bractisau meddygon teulu a phob meddyg ymgynghorol (i’w rannu â’u tîm) a oedd yn cynnwys nodyn atgoffa o arferion atgyfeirio da. Roedd yn gadarnhaol nodi bod llawfeddygon fasgwlaidd a chardiolegwyr yn derbyn llythyr hawl a oedd yn cynnwys eu cwmpas ymarfer.

Yn ogystal â hyn, nododd y ffurflen hunanasesu fod yn rhaid i bob atgyfeiriwr anfeddygol gwblhau’r hyfforddiant atgyfeirio anfeddygol a ddarperir gan yr adran radioleg cyn cyflwyno cais am hawl i arfer cwmpas ymarfer penodol. Roedd cofrestr a oedd yn cynnwys y cwmpas ymarfer ar gael i’r ymarferwyr a’r gweithredwyr er mwyn hwyluso’r broses o wirio bod yr atgyfeiriad wedi’i wneud gan unigolyn â’r hawl briodol a’i fod yn unol â’u cwmpas ymarfer. Nid oedd angen ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant penodol pellach, ond roedd y bwrdd iechyd yn y broses o nodi hyfforddiant gloywi gorfodol ar gyfer yr holl staff i’w gwblhau bob dwy flynedd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd gan yr uwch ymarferwyr nyrso cardiaidd yr hawl ffurfiol sy’n unol ag atgyfeirwyr anfeddygol - mae angen unioni hyn.

Nid oedd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer hawliau yn cynnwys cyfeiriad at feysydd cardioleg a llawfeddygaeth fasgwlaidd ac mae angen cynnwys y rhain yn y cyflwyniad neu’r adran gefndir yng ngweithdrefn y cyflogwr. Er bod adran 3.4, ‘Atgyfeirwyr nad ydynt yn yr adran radioleg sydd hefyd yn gweithredu fel ymarferydd a gweithredwr’, yn cyfeirio at gardiolegwyr a llawfeddygon fasgwlaidd, nid ydynt wedi’u rhestru o dan adran 5 ‘cofnodion hyfforddiant’.

### *Gweithdrefnau a phrotocolau*

Fel rhan o'r ffurflenni hunanasesu, darparodd y bwrdd iechyd restr helaeth o weithdrefnau a phrotocolau i AGIC. Fodd bynnag, nodwyd bod rhai o'r gweithdrefnau a'r protocolau hyn yn hwyr i'w hadolygu ac, mewn rhai achosion, nid oedd y fersiynau wedi'u rheoli. Ymhlith yr enghreifftiau roedd y ddogfen atgyfeirio dyddiedig 2015 a RAD 035 a 036.

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod gweithdrefnau'r cyflogwr o safon dda ond bod angen iddynt adlewyrchu gofynion yr adrannau cardioleg a fasgwlaidd yn well. Trafodwyd y rhain gyda'r rheolwr ym mhob rhan o'r ffurflenni hunanasesu.

### *Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd*

Roedd ymatebion y staff yn yr holiadur yn y maes hwn yn cynnwys y tro diwethaf yr oeddent wedi gweld achos o ddod i gysylltiad anfwriadol ag ymbelydredd, camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad. Dywedodd 77 y cant eu bod nhw neu gydweithiwr wedi adrodd achos ond dywedodd 17 y cant nad oeddent wedi gwneud hynny. Roedd yr holl aelodau o staff, ac eithrio un, yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau a, phan wnaethant hynny, bod eu sefydliad wedi cymryd camau i sicrhau nad oeddent yn digwydd eto. Roedd bron pob aelod o staff a fynegodd farn yn cytuno bod y staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau yn cael eu trin yn deg gan eu sefydliad. Yn ogystal, roedd canran y staff a oedd yn cytuno â'r datganiadau canlynol fel a ganlyn:

- Mae aelodau o staff yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau a adroddwyd - 92 y cant
- Pe byddai aelod o staff yn poeni am ymarfer anniogel, y byddai'n gwybod sut i roi gwybod amdano - 98 y cant
- Byddai'r aelod o staff yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel - 79 y cant
- Byddai'r aelod o staff yn hyderus y byddai ei bryderon yn cael sylw - 62 y cant, ond dywedodd 27 y cant nad oeddent yn gwybod ac roedd 11 y cant yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'r hyder ganddynt i godi pryder ac y byddai'r adran yn ymchwilio iddo'n briodol. Hefyd, dywedodd y staff y byddent yn herio unrhyw enghraifft o arferion anniogel a welsant yn yr adran. Roeddent yn gallu disgrifio'r weithdrefn ar gyfer adrodd am achosion damweiniol neu anfwriadol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd a digwyddiadau eraill. Dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd o ddiwyddiadau, yn ogystal â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch eraill yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd.

## Y gweithlu

Nid oedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw unrhyw broblemau ynghylch nifer y staff a chymysgedd eu sgiliau. Disgrifiodd yr uwch aelodau o staff drefniadau i leihau effaith unrhyw swyddi gwag ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Roedd yn amlwg bod y gweithlu presennol yn cael ei ddefnyddio mewn modd effeithiol a hyblyg er mwyn bodloni'r gofynion ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, dim ond 55 y cant o'r staff oedd yn cytuno bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Gwnaed yr awgrymiadau canlynol mewn ymateb i'r ffyrdd y gallai'r lleoliad hwn wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo:

*“Mae angen mwy o staff arnom ni a rhaid cael mwy o arian ar gyfer hyfforddiant er mwyn i hynny ddiwydd ... fel bod y staff cymwys yno pan fo angen.”*

*“Staff cymorth am 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.”*

*“Darparu cyflenwad gwell o staff sydd â'r cymwysterau yn ystod pob cyfnod o 24 awr. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o staff sy'n gweithio ar benwythnosau a thros nos, mewn ardaloedd cleifion mewnol prysur sy'n anodd yn gorfforol.”*

*“Mae angen ychydig mwy o staff a system gyflogaeth gyflymach oherwydd y gall rhai dechreuwyr newydd gymryd misoedd i ddechrau.”*

*“Staffio digonol, cymysgedd cywir o sgiliau staff sy'n gweithio mewn ardal.”*

Roedd y mwyafrif o'r staff yn cytuno y gallent gael mynediad at y systemau TG yr oedd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth da i'r cleifion. Gwnaed yr awgrym canlynol mewn ymateb i sut y gallai'r lleoliad hwn wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu:

*“Systemau a phrosesau TG gwell a chydgyssylltiedig sy'n croesi adrannau / ffiniau.”*

Roedd dwy ran o dair o'r staff yn cytuno eu bod yn rhan o'r broses o benderfynu ar newidiadau a gyflwynir sy'n effeithio ar eu maes gwaith. Nododd aelod o staff y sylwadau canlynol:

*“Rwy'n ansicr a yw'n rheolwyr yn ymwybodol o'r ffaith bod newidiadau diweddar i'r adran wedi effeithio cymaint ar les y tîm, ond yn bendant mae'n rhywbeth sydd angen ei ystyried.”*

### *Hyfforddiant*

Roedd y matrices hyfforddi a ddarparwyd ar gyfer yr adran radioleg yn dangos, yn gyffredinol, bod cydymffurfedd da â'r hyfforddiant gorfodol. Roedd cydymffurfedd is o 79 y cant yn achos un pwnc, sef codi a chario, oherwydd y diffyg hyfforddiant wyneb yn wyneb. Darparwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel dau.

Dyweddodd yr uwch aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn cael eu cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol, gan gynnwys astudiaethau ôl-raddedig. Roedd y radiograffwyr adrodd yn cael eu cefnogi i gwblhau eu hyfforddiant ar y safle. Roedd y staff yn cael eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant uwch ar gynnal bywyd yn ogystal ag ymarfer uwch.

Roedd 96 y cant o'r staff yn teimlo'u bod wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni eu rôl, gan roi'r esboniadau canlynol:

*“Dwi wedi derbyn hyfforddiant yn y swydd ac mae'n dal i barhau.”*

*“Statws ychwanegol addas nes fy mod i'n teimlo'n gymwys.”*

*“Does dim digon o amser wedi'i neilltuo i gwblhau'r hyfforddiant gorfodol.”*

Gwnaethom ofyn a oedd unrhyw hyfforddiant arall a fyddai'n ddefnyddiol i'r staff. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

*“Efallai y dylid cael cymwyseddau penodol i'w cwblhau i helpu i ddangos cynnydd unigol. Mwy o wybodaeth o safbwynt nyrsio ynghylch gofal gweithdrefnol/ymchwil perthnasol ar gyfer nyrsio sy'n effeithio ar ein rôl a/neu ofal cleifion.”*

*“Byddai ymarfer sy'n fwy penodol i drawma yn ddefnyddiol ...”*

*“Diweddariad ynghylch thrombosis gwythiennau dwfn.”*

*“Rheoli'r System Archifo Llundain a Chyfathrebu (PACS) a System Wybodaeth yr Ysbyty (HIS).”*

*“Mwy o gyfeiriad am yr ymddiriedolaeth ac adrannau eraill.”*

*“Mwy o hyfforddiant ar archwiliadau arbenigol a’r hyn y mae’r radiolegwyr yn chwilio amdano.”*

Roedd yr holl staff yn cytuno bod eu hyfforddiant, eu dysgu a’u datblygiad wedi eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Hefyd, roedd yr holl staff yn cytuno bod eu hyfforddiant, eu dysgu a’u datblygiad wedi eu helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol ac i ddarparu profiad gwell i’r cleifion. Dywedodd cyfanswm o 91 y cant o’r staff fod eu rheolwr yn eu cefnogi i gael hyfforddiant, dysgu neu ddatblygiad.

### *Arfarniadau*

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau blynyddol yr holl staff yn gyfredol. Fodd bynnag, yn yr holiadur staff, roedd 16 y cant o’r staff wedi nodi nad oeddent wedi cael adolygiad nac arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf. O’r staff hynny a oedd wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd 73 y cant fod anghenion hyfforddi, dysgu neu ddatblygu wedi’u nodi.

### *Llesiant*

Disgrifiwyd y trefniadau cymorth sydd ar waith i ddiogelu llesiant y staff, ac roedd y rhain yn cynnwys byrddau llesiant a sicrhau bod seicolegydd ar gael. Roedd hyn yn ogystal â’r trefniadau iechyd galwedigaethol sydd ar gael i’r staff. Roedd gan y staff fynediad at glinig dermatoleg ac roedd lleithyddion ar gael ar gyfer unrhyw aelod o staff a oedd yn cael problemau yn gwisgo’r masgiau wyneb gofynnol.

Roedd canrannau’r staff a oedd yn cytuno â’r cwestiynau yn y maes hwn fel a ganlyn:

- Mae sefydliad yr aelod o staff yn cymryd camau cadarnhaol ynghylch iechyd a llesiant - 84 y cant
- Roedd y staff yn ymwybodol o’r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael iddynt - 92 y cant
- Roedd cefnogaeth lawn yn cael ei chynnig iddynt yn achos sefyllfaoedd heriol - 88 y cant
- Nid oedd eu swydd yn niweidiol i’w hiechyd - 80 y cant. Dywedodd y staff:

*“... mae’r tîm wedi digalonni... Mae’r gofynion i’w gweld yn cynyddu, a chyda hynny daw mwy o bwysau ar y tîm, tra bod pawb yn ceisio gweithio*

*mewn modd diogel. Rwyf wir yn dwlu ar fy swydd a'r hyn rwy'n ei wneud ond, ar hyn o bryd, nid yw'r amgylchedd yn teimlo'n iach."*

*"Mae'r staff dan straen ac wedi blino ac nid ydynt yn teimlo bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif."*

- Mae eu patrwm gwaith presennol a'r amser oddi ar ddyletswydd yn ei gwneud yn bosibl cadw cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith - 78 y cant. Dywedodd y staff y canlynol wrthym:

*"Dylid gwella'r system o ran gwaith shifft. Mae'r cyfuniad o shifftiau byr a hir a'r newid cyflym rhwng shifftiau'r nos a'r dydd (weithiau gyda dim ond un diwrnod cwsg) yn golygu nad oes digon o amser i orffwys, yn enwedig yn achos y staff sy'n gweithio'n llawn amser."*

Roedd cyfanswm o 85 y cant o'r staff a ymatebodd yn cytuno y gallent fodloni'r holl alwadau sy'n gwrthdaro ar eu hamser yn y gwaith.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			



# Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

**Gwasanaeth:** Labordy Cathetreiddio a Theatr Hybrid Ymyriadol, Ysbyty Glan Clwyd

**Dyddiad yr arolygiad:** 4 a 5 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd ynghylch sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Labordy Cathetreiddio a Theatr Hybrid Ymyriadol, Ysbyty Glan Clwyd

**Dyddiad yr arolygiad:** 4 a 5 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu diweddiadau rheolaidd i'r cleifion ynghylch yr adborth ar brofiad y cleifion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.	Safon 5 Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth	Roedd adborth y cleifion o'r cyfnod cyn COVID-19 wedi'i dynnu ymaith o'r adran Radioleg oherwydd y pandemig. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, a chan ddilyn y canllawiau atal a rheoli heintiau, bydd y bwrdd arddangos ar gyfer adborth cleifion yn cael ei adfer.	Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	Awst 2022
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau y cynhelir adolygiad o weithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr mewn perthynas ag ymholiadau beichiogrwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y broses y mae angen i'r staff ei dilyn yn ddigon manwl, a hynny ar gyfer pob math o	Rheoliad 6 Atodlen 2 1 (c) Rheoliad 11(1)(f)	Mae posteri eisoes wedi'u harddangos mewn cyfleusterau toiled sy'n niwtral o ran rhywedd. Yn ogystal, mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb.	Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	Cwblhawyd Mehefin 2022  Cwblhawyd Mehefin 2022

<p>gleifion y gallent ddod ar eu traws. Yn ogystal, dylai'r adolygiad hwn gynnwys sut mae amrywiaeth rhywedd y cleifion yn cael ei ystyried a'i reoli.</p>		<p>Tra'n aros am gyngor Cymru gyfan, codwyd y mater ynghylch amrywiaeth rhywedd a beichiogrwydd yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Amddiffyn rhag Ymbelydredd a'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ym mis Mehefin, pan gytunwyd bod hwn yn fater i'r cyflogwr ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu.</p> <p>Mae'r dull hwn yn dal i gael ei ystyried ar sail Cymru gyfan.</p> <p>Dylid addasu'r siart lif ar gyfer prosesau'r Labordy Cathetreiddio fel ei bod yn cynnwys yr ystod oedran.</p>	<p>Uwch Radiograffydd y Labordy Cathetreiddio</p>	<p>Medi 2022. Mae'n bosibl y bydd yn cymryd peth amser i dderbyn gwybodaeth gan nifer o bwyllgorau ar draws y sefydliad dros yr haf.</p> <p>Gorffennaf 2022</p>
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y set lawn o weithdrefnau'r cyflogwr yn adlewyrchu'r prosesau gwirioneddol yn yr adrannau y maent yn cael eu defnyddio ar eu cyfer. Mae hyn yn</p>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 2</p>	<p>Diwygio gweithdrefnau'r cyflogwr presennol ar gyfer radioleg fel eu bod yn cynnwys gweithdrefnau'r Labordy</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Awst 2022</p> <p>Bydd yr amserlen yn ei gwneud yn bosibl cael cymeradwyaeth</p>

<p>golygu cynnwys cyfeiriad at y Labordy Cathetreiddio Cardiaidd a'r Theatr Hybrid Ymyriadol, yn enwedig pan fo'r prosesau hyn yn wahanol.</p>		<p>Cathetreiddio Cardiaidd a'r Theatr Hybrid Ymyriadol</p>		<p>drwy'r cyfarfod ansawdd a diogelwch radioleg misol.</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod llenni urddas untro a ddefnyddir yn yr uned yn cael eu newid o leiaf unwaith y flwyddyn (oni bai eu bod wedi'u baeddu) a rhaid cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu hadnewyddu mewn modd amserol.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Mae angen creu cofnod fel bod tystiolaeth ar gyfer pryd y mae'r llenni untro wedi cael eu newid.</p>	<p>Uwch Radiograffydd y Labordy Cathetreiddio</p>	<p>Gorffennaf 2022</p>
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â gweithdrefn y cyflogwr mewn perthynas â gwiriadau statws beichiogrwydd, gan gynnwys yr angen i gofnodi'n gyson bod y gwiriad wedi'i gwblhau.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion Rheoliad 6 (8) Atodlen 2 1(c)</p>	<p>Dosbarthu hysbysiad gwelliant radioleg ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ac atgoffa'r staff drwy sesiynau briffio a chyfarfodydd.</p> <p>Diwygio'r weithdrefn Gwiriad Beichiogrwydd (RAD001) fel mai dim ond ar gerdyn cais y gwneir cofnod, wedyn ail-redeg archwiliad</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Cwblhawyd Mehefin 2022</p> <p>Awst 2022. Bydd yr amserlen yn ei gwneud yn bosibl cael cymeradwyaeth drwy'r cyfarfod ansawdd a diogelwch radioleg misol.</p>

<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan uwch ymarferwyr nyrso cardiaidd yr hawl ffurfiol i weithredu fel atgyfeirwyr anfeddygol.</p>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 2 1(b)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen i uwch ymarferwyr nyrso cardiaidd gwblhau cais a'r hyfforddiant diogelwch ar ymbelydredd er mwyn cael yr hawl. Ni dderbynnir unrhyw atgyfeiriadau gan atgyfeirwyr anfeddygol, gan gynnwys ymarferwyr nyrso cardiaidd, oni bai bod ganddynt yr hawl ffurfiol, a hyd nes bod hynny'n wir.</li> <li>• Wedyn, bydd llythyrau hawl yn cael eu cyhoeddi.</li> </ul>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Medi 2022</p> <p>Bydd yr amserlen yn sicrhau mynediad i'r hyfforddiant a gynhelir unwaith y mis a'i gwneud yn bosibl i arweinwyr clinigol asesu'r ceisiadau er mwyn eu llofnodi.</p>
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr holl fersiynau o'r gweithdrefnau a'r protocolau yn cael eu rheoli'n gyson a'u bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol.</p>	<p>Rheoliad 6 Atodlen 2 1(d)</p>	<p>Bydd yr holl weithdrefnau RhYI(CM) yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ar gyfer rheoli fersiynau a byddant ar gael i'r staff ar wefan SharePoint yr adran Radioleg.</p> <p>Mae angen diwygio'r weithdrefn radioleg ar gyfer defnyddio'r fraich siâp C fach (peiriant pelydr-X sy'n sganio rhan benodol o'r corff ac yn ei gwneud yn bosibl i'r clinigwyr weld y canlyniadau mewn amser real).</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Awst 2022</p>

<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y staff yn adrodd am bob achos o ddod i gysylltiad anfwriadol ag ymbelydredd, camgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau.</p>	<p>Rheoliad 8</p>	<p>Staff wedi cael eu hatgoffa o'r weithdrefn ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau. Dylunio taflen nodiadau ar sut i gofnodi digwyddiad ar Datix.</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Gorffennaf 2022</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi prosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel ac y byddent yn hyderus y byddai eu pryderon yn cael sylw.</p>	<p>Safon 6.3 Gwranddo a dysgu o adborth</p>	<p>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno'r rhaglen a phorth <b>Lleisio Barn yn Ddiogel</b>. Mae'r bwrdd wedi codi ymwybyddiaeth o hyn drwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sesiynau ymwybyddiaeth</li> <li>• Poster</li> <li>• Rhan yng nghylchlythyr yr adran radioleg</li> </ul> <p>Byddwn yn datblygu system er mwyn i'r rheolwyr roi adborth i'r staff ynghylch y pryderon a godwyd (gan gynnwys cynllun datblygu)</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Awst 2022</p>

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r materion canfyddedig gydag staffio a llesiant.</p>	<p>Safon 7.1 Y gweithlu</p>	<p>Mae'r adran Radioleg wedi cyflwyno cyfarfodydd cynaliadwyedd wythnosol.</p> <p>Mae cynllun cynaliadwy pum mlynedd yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r holl feysydd yn yr adran Radioleg (lle mae staff y 'llawr daear' yn gysylltiedig). Cyflwynwyd y drafft ar ddechrau mis Gorffennaf 2022.</p> <p>Cynhaliwyd yr ail ymgyrch recriwtio dramor a phenodwyd pedwar radiograffydd ar gyfer pob safle er mwyn lleddfu problemau lefelau staffio a gwella llesiant y staff.</p>	<p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Hydref 2022</p> <p>Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gwblhau a'i gyflwyno ym mis Hydref.</p> <p>Cwblhawyd Mehefin 2022</p>
--	-----------------------------	---	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Lisa Ruffley-Fuller

Swydd:

Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg

Dyddiad:

1 Gorffennaf 2022.